At: Aelodau'r Cabinet

Dyddiad: 24 Ebrill 2019

Rhif Union: 01824712568

ebost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **CABINET, DYDD MAWRTH, 30 EBRILL 2019** am **10.00 am** yn **SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN**.

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

**AGENDA**

**RHAN 1 – ESTYNNIR GWAHODDIAD I'R WASG AC AELODAU'R CYHOEDD FOD YN BRESENNOL YN Y RHAN YMA O'R CYFARFOD**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGANIADAU O FUDDIANT**

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**3 MATERION BRYS**

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**4 COFNODION** (Tudalennau 7 - 14)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 26 Mawrth, 2019 (copi wedi'i amgáu).

**5 CYNLLUN DATBLYGU LLEOL NEWYDD SIR DDINBYCH – STRATEGAETH A FFEFRIR DDRAFFT** (Tudalennau 15 - 90)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Brian Jones, Aelod Arweiniol Priffyrdd, Cynllunio a Theithio Cynaliadwy (copi ynghlwm) yn cyflwyno argymhellion y Grwp Cynllunio Strategol mewn perthynas â Strategaeth a Ffefrir Ddrafft y CDLl Newydd.

**6 CYFLWYNO MODEL DARPARU AMGEN (MDA) AR GYFER AMRYWIOL WEITHGAREDDAU/ SWYDDOGAETHAU CYSYLLTIEDIG Â HAMDDEN** (Tudalennau 91 - 302)

Ystyried adroddiad ar y cyd (sy'n cynnwys atodiad cyfrinachol) gan y Cynghorydd Bobby Feeley, Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth, a'r Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol (copi yn amgaeedig) yn gofyn i'r Cabinet argymell i'r Cyngor eu bod yn cefnogi achos busnes a sefydliad Cwmni Masnachu'r Awdurdod Lleol ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau/swyddogaethau hamdden 'o fewn cwmpas' y cytunwyd arnynt eisoes ynghyd â'r awdurdodiadau cysylltiedig.

**7 ADRODDIAD CYLLID** (Tudalennau 303 - 316)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol (copi ynghlwm) ynglŷn â'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd a wnaed o ran y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb.

**8 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET** (Tudalennau 317 - 320)

Derbyn Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet sy'n amgaeedig, a nodi'r cynnwys.

**RHAN 2 - MATERION CYFRINACHOL**

GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

Argymhellir, yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, bod y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod tra bydd yr eitem ganlynol yn cael ei thrafod oherwydd ei bod yn debygol y bydd gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu fel y'i diffinnir ym mharagraff 14, Rhan 4, Atodlen 12A y Ddeddf.

**9 NEWIDIADAU I BENODIADAU CONTRACTWYR I FFRAMWAITH ADEILADU GOGLEDD CYMRU (NWCF2)** (Tudalennau 321 - 346)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Cyng. Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol (copi'n amgaeedig) yn rhoi manylion am newidiadau i ganlyniad proses NWCF2 a phenodiad contractwyr wedi'u hargymell.

**AELODAETH**

**Y Cynghorwyr**

Hugh Evans
Bobby Feeley
Huw Hilditch-Roberts
Richard Mainon
Tony Thomas
Julian Thompson-Hill
Brian Jones
Mark Young

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned